60 mun

# Sylwi ar Ddyfrgwn

**Yr offer sydd ei angen**

- Copi o'r daflen ‘Sylwi ar Ddyfrgwn' (2 dudalen), un i bob pâr
- Copi o 'Taflen Ffeithiau Dyfrgwn Cymreig', un i bob pâr
- Dyfais y gellir ei ddefnyddio i gysylltu â'r rhyngrwyd a mynediad i'r rhyngrwyd
- Mynediad i Hwb ac offeryn graffio addas (e.e. Excel, Google Sheets, J2E – JiT5)

## I gwblhau'r gweithgaredd

1. Darparwch gopïau o'r daflen waith ‘Sylwi ar Ddyfrgwn’ i'r dysgwyr a 'Thaflen Ffeithiau Dyfrgwn Cymru' ar gyfer pob pâr o ddysgwyr.

2. Cefnogwch y dysgwyr i ddefnyddio'r wybodaeth yn y 'Daflen Ffeithiau Dyfrgwn Cymru' i gwblhau'r tabl ar eu taflen waith. Dylai'r dyddiadau gael eu talgrynnu i'r 10 mlynedd agosaf.

## Atebion

| | 1af - Cyntaf | 2il - Ail | 3ydd - Trydydd | 4ydd - Pedwerydd | 5ed - Pumed | 6ed - Chweched |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Tua'r flwyddyn | 1970au | 1980au | 1990au | 2000au | 2010au | 2020au |
| Safleoedd gydag arwyddion o ddyfrgwn (%) | 20% | 38% | 53% | 72% | 90% | 71% |

3. Ar ôl i'r dysgwyr gwblhau eu tablau, cefnogwch hwy i greu eu siart bar neu graff llinell eu hunain, gan ddefnyddio'r wybodaeth yn y tabl. Trafodwch offer graffio addas e.e., Excel, Google Sheets, J2E – JiT5.

4. Gan ddefnyddio'r map gwasgariad, cefnogwch ddysgwyr i nodi ardaloedd sydd â chrynodiadau uchel o safleoedd cadarnhaol. Trafodwch batrymau. Pa fathau o gynefinoedd sydd orau gan ddyfrgwn (e.e. afonydd, llynnoedd, gwlyptiroedd)?

5. Gofynnwch i ddysgwyr drafod bygythiadau posibl a allai fod yn effeithio ar boblogaethau dyfrgwn mewn rhai ardaloedd. Gallai dysgwyr gyfeirio at golli cynefinoedd, llygredd dŵr, newid yn yr hinsawdd, aflonyddwch dynol a chlefydau.



# Sylwi ar Ddyfrgwn

*Gan ddefnyddio'r wybodaeth a ddarperir yn 'Taflen Ffeithiau Dyfrgwn Cymru', cwblhewch y tabl canlynol:*

| | $1^{af}$ - Cyntaf | $2^{il}$ - | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Tua'r Flwyddyn | 1970au | 1980au | | | | |
| Safleoedd gydag arwyddion o ddyfrgwn (%) | 20% | | | | | |

*Talgrynnwch bob dyddiad i'r deng mlynedd agosaf.*

## Tasg

*Crëwch graff bar gan ddefnyddio eich offeryn graffio dewisol. Defnyddiwch eich graff i ateb y cwestiynau canlynol:*

1. Pa ddegawd oedd â'r ganran isaf o arwyddion o ddyfrgwn yng Nghymru?

.......................................................................................................

2. Ym mha ddegawd y cyrhaeddodd arwyddion o ddyfrgwn eu hanterth yng Nghymru?

.......................................................................................................

3. Beth yw'r duedd gyffredinol ym mhoblogaethau dyfrgwn yng Nghymru dros y degawdau diwethaf? A yw'n cynyddu, yn lleihau neu'n amrywio?

.......................................................................................................



# Sylwi ar Ddyfrgwn

Defnyddiwch y map gwasgariad (Ffigur 1) i nodi ardaloedd sydd â chrynodiadau uchel o arwyddion cadarnhaol.

- Trafodwch unrhyw batrymau.
- Pa fygythiadau posibl allai fod yn effeithio ar boblogaethau dyfrgwn mewn rhai ardaloedd?
- Pam ydych chi'n meddwl hyn?




Ffigur 1: Chweched arolwg dyfrgwn yng Nghymru, sy'n dangos dosbarthiad safleoedd cadarnhaol a negyddol.

Beth allai fod wedi achosi'r dirywiad ym mhoblogaethau'r dyfrgwn yn y 1970au?

Pa ffactorau allai fod wedi cyfrannu at adfer poblogaethau dyfrgwn yn y 1990au a'r 2000au? **Pam?**

Pa heriau mae dyfrgwn yn eu hwynebu yng Nghymru heddiw? **Pam ydych chi'n meddwl hyn?**

Sut allwn ni barhau i ddiogelu a gwarchod poblogaethau dyfrgwn?



*Fel arfer, gall dyfrgwn ddal eu gwynt am hyd at 8 munud.*

# Dyfrgwn Cymru

## TAFLEN FFEITHIAU



Mae Arolwg Dyfrgwn Cymru yn brosiect sy'n monitro poblogaeth dyfrgwn yng Nghymru.

Mae gwyddonwyr a gwirfoddolwyr yn gweithio gyda'i gilydd i gasglu gwybodaeth am ble mae dyfrgwn yn byw a sut mae eu niferoedd yn newid.

- Yn y 1970au, roedd dyfrgwn wedi diflannu o'r rhan fwyaf o afonydd Prydain.
- Yng Nghymru, ymwelwyd â dros 1,000 o safleoedd, gydag arwyddion o ddyfrgwn i'w gweld ar **20%** o safleoedd.
- Daeth yr ail arolwg ym 1984 o hyd i arwyddion o ddyfrgwn ar **38%** o safleoedd.
- Yn 1991, daeth y trydydd arolwg o hyd i arwyddion o ddyfrgwn ar **38%** o'r safleoedd.
- Yn 2002, canfuwyd dyfrgwn ar **72%** o safleoedd, gyda **90%** o safleoedd ag arwyddion o ddyfrgwn yn 2009-2010.
- Rhwng 2015 a 2018, dangosodd **71%** o safleoedd arwyddion o ddyfrgwn.

## Cartrefi Dyfrgwn

Mae dyfrgwn yn adeiladu cartrefi clyd o'r enw 'gwalau'.

Maent yn aml yn dewis glannau afonydd neu dyllau coed, gan eu leinio â mwsogl neu ddail.

Mae gwalau yn darparu lle diogel a chynnes i ddyfrgwn orffwys, cysgu a magu eu hifanc.

## Arwyddion o Ddyfrgwn

Llwybrau dyfrgwn ar hyd ymyl y dŵr.

Olion traed dyfrgwn yn y mwd.

Gweddillion dros ben o'u hysglyfaeth, fel esgyrn pysgod.

Baw dyfrgwn, sydd ag arogl melys nodedig!



Gall dyfrgwn gwrywaidd fod dros fetr o hyd a phwyso tua'r un faint â phlentyn bach.